

Gwrando arnoch chi: Mae eich iechyd yn bwysig

Papur Gwyn Iechyd y Cyhoedd – Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Rydym eisiau eich barn ar ein cynigion yn y Papur Gwyn ar Iechyd y Cyhoedd.

Mae eich barn yn bwysig. Rydym yn credu y bydd y ddeddfwriaeth newydd yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl. Mae'r Papur Gwyn ar agor ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ac rydym yn croesawu eich sylwadau. Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar 24 Mehefin 2014.

Mae'r ffurflen hon yn cynnwys oll cwestiynau o fewn y Papur Gwyn. I'n helpu i gofnodi a dadansoddi ymatebion, buasem yn ddiolchgar os gallwch strwythuro eich sylwadau o amgylch y rhain. Nid oes angen i chi roi sylwadau ar bob cwestiwn ac nid oes angen i chi ddefnyddio'r ffurflen hon i ymateb i'r ymgynghoriad. Mae croeso i chi gyflwyno eich ymateb mewn fformat sy'n addas i chi.

Mae'r cynigion yn cael eu cyflwyno o dan nifer o themâu, nid oes angen i chi ateb pob cwestiwn ar bob thema, dim ond y rhai yr ydych yn dymuno rhoi sylwadau arnynt. Gall y rhestr isod helpu chi ddod at yr adrannau perthnasol:

Pennod 2: Tybaco a sigarêts electronig

- **Cofrestr manwerthwyr tybaco** C1 – C5
- **Sigarêts electronig** C6 – C11
- **Mannau agored di-fwg** C12
- **Gwerthu tybaco ar y rhyngrwyd tybaco** Q13 – C14

Pennod 3: Alcohol

- **Isafswm Pris fesul Uned** C15 – C20

Pennod 4: Gordewdra

- **Safonau Maeth** C21 – C23

Pennod 5: Datblygu asedau cymunedol ar gyfer iechyd

- **Cynllunio a darparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus yn well drwy fferyllfeydd cymunedol** C24 – C32
- **Toiledau cyhoeddus** C33 – C35

Pennod 6: Rheoleiddio er budd iechyd

- **Cofrestr Genedlaethol ar gyfer Triniaethau Arbennig** C36 – C45

Pennod 7: Y camau nesaf

C46 - C47

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu ar draws Cymru ar y Papur Gwyn yn ystod y cyfnod ymgynghori. Bydd manylion y digwyddiadau hyn a sut i fod yn bresennol ar gael ar dudalen we yr ymgynghoriad pan fyddant ar gael.

Cyflwynwch eich sylwadau i PHBill@cymru.gsi.gov.uk erbyn 24 Mehefin 2014.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn ar ymgynghoriad hwn, cysylltwch a: PHBill@cymru.gsi.gov.uk

Diogelu Data

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael eu gweld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n delio â'r materion sy'n cael eu trafod yn yr ymgynghoriad. Efallai y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn eu gweld hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y person neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Bydd hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw neu eich cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn yn cuddio'r manylion hyn.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau neu'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad ydym yn credu y bydd hyn yn digwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn galluogi'r cyhoedd i wneud cais i weld gwybodaeth sy'n cael ei chadw gan nifer o gyrff cyhoeddus, yn cynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth nad yw wedi'i chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i wybodaeth gael ei hatal mewn rhai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn i weld gwybodaeth sydd wedi'i hatal gennym, byddwn yn penderfynu a fyddwn yn ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio cyhoeddi eu henw a'u cyfeiriad, byddwn yn ystyried y ffaith bwysig hon. Fodd bynnag, efallai bod rhesymau pwysig pam y byddai'n rhaid i ni ddatgelu enw a chyfeiriad rhywun, er eu bod wedi gofyn i ni beidio eu cyhoeddi. Byddwn yn cysylltu â'r unigolyn hwnnw ac yn gofyn eu barn cyn y byddwn yn gwneud penderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Os fyddai'n well gennych i ni beidio cyhoeddi eich manylion, ticiwch yma

Enw	Arry Beresford-Webb
Sefydliad	Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyfeiriad	29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP
Cyfeiriad e-bost	Arry.beresford-webb@naturalresourceswales.gov.uk
Dewiswch un o'r canlynol	Cyrff Academaidd/Ymchwil <input type="checkbox"/>
	Sefydliadau'r GIG <input type="checkbox"/>

Llywodraeth Cymru – Ymateb i'r ymgynghoriad

os gwelwch yn dda:	Sefydliadau lechyd arall	<input type="checkbox"/>
	Llywodraeth leol	<input type="checkbox"/>
	Cyrff cynghori	X <input type="checkbox"/>
	Grŵp Trydydd Sector	<input type="checkbox"/>
	Grwpiau cynrychioladol	<input type="checkbox"/>
	Sefydliadau'r sector breifat	<input type="checkbox"/>
	Aelodau'r cyhoedd	<input type="checkbox"/>
	Arall (grwpiau heb eu rhestru uchod)	<input type="checkbox"/>

Pennod 5: Datblygu asedau cymunedol ar gyfer iechyd

Cynllunio a darparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus yn well drwy fferyllfeydd cymunedol

Cwestiwn 32

A oes unrhyw feysydd penodol eraill lle gellid defnyddio'r dull hwn o weithredu er mwyn gwella iechyd y cyhoedd ar lefel gymunedol?

Oes X

Nac oes

Mae tystiolaeth glir yn pwyntio at fanteision iechyd a lles sicrhau a gwella'r ddarpariaeth o fannau gwyrdd lleol, safonol, fel ased ffisegol mewn ardal (FPH, 2010). Mae hwn yn ased diriaethol, y gellir ei brofi drwy ddefnyddio pecyn cymorth Mannau Gwyrdd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) er mwyn i'r fethodoleg fod yn gyson. Mae yna brosesau ar hyn o bryd i gynnal archwiliad annibynnol o ansawdd manau gwyrdd a pha mor addas ydynt i'w pwrpas, ar ffurf Gwobrau'r Faner Werdd. Byddai hyn hefyd yn cyd-fynd â't targed yn Rhaglen Lywodraethu Cymru i ddefnyddio Gwobrau'r Faner Werdd –

'11/023 – parhau i ymrwymo i wella mynediad cyhoeddus i dir gyda gwell mynediad i deuluoedd a phlant ifanc. Mae cefnogaeth i Wobrau'r Faner Werdd i fod i yrru gwelliannau yn ansawdd parciau a manau gwyrdd Cymru.'

Nid yw gwerth manau gwyrdd wedi'i gyfyngu i les esthetig. Mae tystiolaeth hefyd fod manau gwyrdd yn agos at gartrefi pobl: yn lleihau llifogydd drwy ddarparu wyneb heb ei selio y gall dŵr glaw ymdreiddio iddo (SuDS Manual, CIRIA 2007), ac yn darparu storfa dymor hir i garbon sy'n cael ei allyrru, sy'n llesol o ran lliniaru newid hinsawdd (Forest Research, 2007)

Dywed Nodyn Cyngor Technegol 16 (TAN16): Chwaraeon, Hamdden a Manau Agored (2009) y bydd awdurdodau lleol hwyrach am ddefnyddio ac addasu darpariaethau sy'n cael eu hargymell yn y pecyn cymorth i ymdrin â'u hanghenion a'u hamgylchiadau eu hunain.

Wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau), mae nifer o awdurdodau cynllunio lleol (ACLlau) wedi defnyddio'r pecyn i nodi, darparu ar gyfer, a gwella manau gwyrdd naturiol ar gyfer eu cymunedau. Fodd bynnag, yn ein profiad ni fel corff yr ymgynghorir yn statudol ag ef yn y broses CDLI, mae cryn wahaniaeth rhwng ACLlau o ran sut maent yn defnyddio'r pecyn i gyfrannu at bolisiau CDLI. Tra mae rhai CDLlau yn cynnwys polisiau y mae asesiad o fannau gwyrdd naturiol yn amlwg wedi dylanwadu arnynt, mae nifer o CDLlau nad ydynt yn cynnwys polisiau sy'n darparu ar gyfer manau gwyrdd naturiol.

I gydnabod y buddion cymdeithasol (yn cynnwys iechyd), economaidd ac amgylcheddol niferus a all ddeillio o fannau gwyrdd naturiol, rydym yn argymhell y dylid diwygio TAN16 fel mae'r cyngor ynddo yw y dylai awdurdodau cynllunio lleol, wrth baratoi CDLlau neu Ganllawiau Cynllunio Atodol, ddefnyddio'r pecyn

i asesu a, lle mae hynny'n briodol, i wella'r ddarpariaeth o fannau gwyrdd naturiol yn ardaloedd eu hawdurdod.

I gyd-fynd â'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem, dylai unrhyw newid o'r fath i TAN16 hefyd amlygu'r buddion iechyd a'r buddion ehangach y gellir eu cael o fannau gwyrdd naturiol; pethau fel:

- cyfleoedd hamdden awyr agored i wella iechyd a lles;
- helpu i reoli ansawdd yr aer mewn lleoliadau trefol;
- lliniaru effeithiau newid hinsawdd a thrwy hynny helpu i leihau'r potensial yr achosir effeithiau iechyd andwyol yn gysylltiedig â newid hinsawdd e.e. cymedroli ynysoedd gwres trefol; a

chyfleoedd addysgol a chyfleoedd gwaith cymunedol/gwirfoddol i gymunedau

Canfuwyd hefyd fod darparu manau gwyrdd lleol, safonol, yn ffordd eithriadol o effeithiol o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Canfuwyd bod pobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol difreintiedig yn ystyried manau gwyrdd yn wasanaeth allweddol, ochr yn ochr â thai, iechyd, addysg a phlisma. (CABE 2010)

O ystyried y gall un man gwyrdd naturiol gyflenwi nifer o'r buddion uchod, dylai TAN 16 hefyd bwysleisio y dylai manau gwyrdd naturiol gael eu gwarchod a'u gwella wrth ddylunio datblygiadau newydd.

Toiledau cyhoeddus

Cwestiwn 33

A ddylid rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddatblygu strategaeth ar ddarparu toiledau i'r cyhoedd eu defnyddio a mynediad iddynt yn eu hardal?

Dylai **X**

Ni ddylai

Mae CNC yn cefnogi'r egwyddor o ddarparu cyfleusterau toiled digonol ar sail anghenion y gymuned ac ymwelwyr. Mae anallu i gyrchu at doiledau yn rhwystr cydnabyddedig rhag i bobl fynd allan a chymryd rhan mewn hamdden awyr agored. Mae hyn yn neilltuol o wir i bobl ag anableddau, rhieni plant ifanc a phobl hŷn (Bichard & Knight, 2011; I'DGO, 2007). Fodd bynnag, mae angen ystyried costau - cyfalaf a referniw - cynnal y cyfleusterau hyn. Nid dim ond yr adnoddau'n sy'n ofynnol i gynnal a chadw'r toiledau eu hunain sydd dan sylw, gan fod effeithiau ychwanegol hefyd o ran faint o bobl sy'n defnyddio meysydd parcio ac atyniadau ymwelwyr. Tra mae rhagor o ymwelwyr yn cael eu hannog, mae'r adnoddau i reoli hyn yn hanfodol (h.y. cynyddu'r lleoedd parcio sydd ar gael, a'r wardeiniaid, y glanhawyr ac ati). Os rhoddir dyletswydd ar awdurdodau lleol mae angen darparu adnoddau digonol ar gyfer hynny.

Pennod 7: Y camau nesaf

Cwestiwn 46

Rydym am sicrhau bod Bil Iechyd y Cyhoedd yn adlewyrchu anghenion pobl Cymru. Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw farn ar unrhyw rai o'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn a allai effeithio ar a) hawliau dynol; b) yr iaith Gymraeg; neu c) y nodweddion gwarchoddedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r nodweddion hyn yn cynnwys rhywedd; oedran; crefydd; hil; cyfeiriadedd rhywiol; trawsrywioldeb; priodas neu bartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; ac anabledd.

Wrth ystyried darparu cyfleusterau toiled ychwanegol, dylai cyfleusterau sy'n cael eu codi'n newydd fod yn niwtral o ran y rhywiau a dylent gynnwys cyfleusterau newid babanod, yn ogystal â bod yn gwbl hygyrch. Byddai hyn yn cyflawni dyletswyddau awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Cwestiwn 47

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill neu wybodaeth ddefnyddiol ynglŷn ag unrhyw rai o'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn?

Oes **X**

Nac oes

Gweler cwestiwn 32 am sylwadau ychwanegol ynglŷn ag adran 4.14 (tudalen 37) o'r Papur Gwyn.

Bob tair blynedd mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cynhyrchu Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru, sy'n mesur cyfranogiad mewn hamdden awyr agored ymysg oedolion sy'n byw yng Nghymru. Mae'r canfyddiadau'n cynrychioli barn pobl sy'n byw yng Nghymru ynglŷn â defnyddio'r awyr agored, manau yr ymwelwyd â nhw, lefelau gweithgarwch corfforol, cymhelliant a rhwystrau rhag ymweld â'r awyr agored a 'galw cudd' am hamdden awyr agored. Gellir defnyddio'r wybodaeth hon i helpu i ddylanwadu ar y ddarpariaeth o gyfleoedd hamdden awyr agored er mwyn cynnal ffyrdd iach o fyw, fel y nodwyd yn adran 4.14 (tudalen 37).

Drwyddi draw, mae'n allweddol fod rôl yr amgylchedd fel sylfaen i iechyd ac ansawdd byw uchel yn cael ei gwerthfawrogi, a bod manau gwyrdd yn cael eu cydnabod fel ased cymunedol.
